

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd

<http://senedd.tv/cy/3849>

Dyddiad: Dydd Mercher, 1 Mawrth 2017

Amser: 09.06 – 12.35

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	John Griffiths AC (Cadeirydd) Gareth Bennett AC Janet Finch-Saunders AC Siân Gwenllian AC Bethan Jenkins AC Rhianon Passmore AC Jenny Rathbone AC Joyce Watson AC
Tystion:	Claire Vaughan, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru Sarah Morley, Ymddiriedolaeth GIG Felindre Kate Lorenti, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg Joanna Davies, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Councillor Tudor Davies, South Wales Fire and Rescue Authority



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

	<p>Phil Haynes, South Wales Fire and Rescue Authority</p> <p>Councillor Suzanne Paddison, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru</p> <p>Kevin Jones, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru</p> <p>Gary Brandrick, North Wales Fire and Rescue Authority</p>
Staff y Pwyllgor:	<p>Christopher Warner (Clerc)</p> <p>Elizabeth Wilkinson (Ail Clerc)</p> <p>Chloe Davies (Dirprwy Clerc)</p> <p>Osian Bowyer (Ymchwilydd)</p> <p>Hannah Johnson (Ymchwilydd)</p> <p>Stephen Davies (Cyngorydd Cyfreithiol)</p> <p>Gwyn Griffiths (Cyngorydd Cyfreithiol)</p>

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Datganodd yr Aelodau a ganlyn fuddiannau perthnasol fel aelodau o undebau:

- John Griffiths AC;
- Joyce Watson AC;
- Rhianon Passmore AC;
- Siân Gwenllian AC.

2 Bil yr Undebau Llafur (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 5

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Claire Vaughan, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
- Sarah Morley, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Kate Lorenti, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Dros Dro, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Joanna Davies, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

2.2 Cytunodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru i ddarparu:

- nodyn ar nifer y cyflogeion y telir eu tanysgrifiadau undeb drwy eu didynnu o'u cyflogau ('didynnu drwy'r gyflogres'), ac ar y costau gweinyddol sydd ynghlwm;
- nodyn i egluro'r ffactorau y byddent yn disgwyl iddynt gael eu hystyried wrth bennu cost datgymhwyso'r trothwy pleidleisio o 40% i'r gwasanaeth iechyd.

3 Bil yr Undebau Llafur (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 6

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Y Cyngorydd Tudor Davies, Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
- Phil Haynes, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl, Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
- Y Cyngorydd Suzanne Paddison, Aelod o'r Awdurdod Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Kevin Jones, Arweinydd Adnoddau Dynol a Chyfarwyddwr Adnoddau, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gary Brandrick, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

3.2 Cytunodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i ddarparu nodyn o'i Adran Gyllid ar y costau sydd ynghlwm wrth didynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau ('didynnu drwy'r gyflogres').

4 Papurau i'w nodi

4.1 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn ymwneud â ffoaduriaid a cheiswyr lloches

4.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ynghylch mewn perthynas â ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

4.2 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn ymwneud â'r Bil yr Undebau Llafur (Cymru)

4.2 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol mewn perthynas â Bil yr Undebau Llafur (Cymru).

4.3 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â deiseb i Wahardd Codi Ffioedd Asiantau Gosod ar Denantiaid

4.3 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â deiseb i Wahardd Codi Ffioedd Asiantau Gosod ar Denantiaid a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ynghylch ei amserlen ar gyfer penderfynu a oes angen deddfu ar y mater.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

6 Bil yr Undebau Llafur (Cymru) – trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2 a 3

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitemau 2 a 3.

6.1 Bil yr Undebau Llafur (Cymru) – Ymatebion i'r ymgynghoriad

7 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) – trafod yr amserlen

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr amserlen ar gyfer Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru).

8 Ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru – trafod yr adroddiad drafft

8.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.